"A"

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun**, 9fed Ebrill, 2018, yng Nghanolfan Bryncroes, o 7.30 p.m. hyd 9.05 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Carys E. Williams (Cadeiryddes)
Y Cynghorydd Glenys Williams (Is-Gadeiryddes)
Y Cynghorwyr David Brunelli, Carys H. Evans, Gwenan Griffith, Dylan Parry Jones, Ifor Owen, Glyn Roberts, Siôn Williams
Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Michael Strain, Gareth Williams (Y Cynghorydd Sir)

107. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

108 DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad buddiant personol.

109. CADARNHAU COFNODION

Cyflwynwyd, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor 12fed Mawrth, 2018

MATERION YN CODI

(1) Eitem 101 – Cadarnhau Cofnodion – cymal (1) – Archwilio'r Cyfrifon

Adroddodd y Clarc fod y wefan bellach yn weithredol ac fod Mr. Arfon Parry (Cradur Bach) wedi rhoddi'r wybodaeth yn ddwyieithog. Yn wyneb ymateb a dderbyniwyd gan Mr. Dylan Jones, Swyddog Cydymffurfio o Swyddfa'r Comisiynydd y Gymraeg sef nad "yw Deddf yr Iaith Gymraeg, 1993, na Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod unrhyw ofyniad arnoch i ddarparu'r wefan yn y Gymraeg a'r Saesneg." Yng nghyfarfod 9fed Hydref, 2017, penderfynodd y Cyngor lynu at wefan Gymraeg yn unig.

Penderfynwyd yn wyneb hyn gofyn i'r Cradur Bach (Mr. Arfon Parry) dynnu'r fersiwn Saesneg o'r wefan. Hefyd gofyn iddo ddefnyddio'r map sydd ganddo ar yr ochr Saesneg i ddangos y tair Ward.

(2) Eitem 90 Cadarnhau Cofnodion – cymal (2)(ch) Biniau Halen

Cyflwynwyd atebiad Peiriannydd Ardal Dwyfor i ymholiad y Cyngor ynglyn a'r biniau halen fel a ganlyn:
"Nid oes dyddiad penodol wedi'i gadarnhau hyd yma i gasglu'r biniau halen o'r cymunedau sydd heb ymrwymo i'r cytundeb.
Er gwybodaeth:
Y gost o lenwi bin halen unigol yw £45.
Rhaid i'r Cyngor Cymuned adnabod y biniau sydd i'w llenwi a chysylltu gyda'r Swyddog Cyswllt drwy e-bost PriffyrddDwyfor@gwynedd.llyw.cymru

Penderfynwyd ymholi i gael gwybodaeth beth yw'r Gytundeb fydd angen ei ymrwymo iddo ac hefyd beth yw'r sefyllfa os na fydd angen llenwi pob un o'r biniau.

(c) Eitem 101 Cadarnhau Cofnodion – cymal (5) Arolwg o'r Trefniadau etholiadol ar gyfer Sir Gwynedd – Cynigion Drafft

Trafodwyd y cynigion ymhellach a phenderfynwyd anfon y sylwadau a ganlyn ymlaen i'r Comisiynydd:

1. " Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r fformiwla lle mae rhif yr etholwyr yn chwarae rhan bwysig ar gyfer ethol cynrychiolydd ar Gyngor Gwynedd. Yn sicr mae fformiwla o'r fath yn ddefnyddiol mewn ardal boblog ond i ddarnio etholaethau i fyny er cael y rhif i'r 'cyfartaledd sirol arfaethedig' onid yw hyn yn wrthryn yn enwedig o gofio mai ardal wasgaredig wledig yw'r ardaloedd y cyfeirir atynt ac yn wir ardal ddifreintedig mewn aml fodd. Ym marn y Cyngor ni ddylid ar unrhyw gyfrif newid y ffiniau a chyfuno wardiau Bryncroes a Mellteyrn gyda Chymuned Aberdaron nac ychwaith Botwnnog a Llanengan/Llangian.

2. Os bydd y Comisiwn yn gweithredu eu hargymhellion teimlir yn gryf y bydd yr ardal yn cael ei difetha ar sail mai ardal wledig yw dalgylch Botwnnog ac ardal megis Llanengan/Llangian ac Aberdaron sydd yn ardal o dwristiaeth. Mae gwahaniaeth enbyd rhwng y ddwy ardal e.e. gydag ardal o dwristiaeth mae llawer o'r teuluoedd yn uniaith Saesneg tra mae ardal wledig yn siarad yn eu mamiaith sef y Gymraeg ac felly yr Ysgolion lleol yn arddel yr iaith Gymraeg.

3. Gyda'r rhif cyfartaledd – cytunir mai dyweder 1,200 sydd mewn etholaeth yn y gaeaf ond pan ddaw y tymor gwanwyn/haf gwelir y ffigwr yma yn dyblu a threblu. Mae'r bobl yma yn dibynnu ar wasanaethau fel y rhai sy'n byw yn y gymuned drwy'r amser ac onid yw hyn yn rhoi pwysau aruthrol ar unrhyw Gynghorydd i geisio lleddfu pryderon ac ateb cwestiynau.

4. Pwynt arall yw pam defnyddio 'Aberdaron' i'r ward etholiadol arfaethedig, lle mae'r etholwyr wedi ymfalchio am flynyddoedd lawer eu bod yn byw yng Ngymuned Botwnnog. Pe bai holiadur yn mynd allan i'r trethdalwyr yn sicr ddigon byddai'r ymateb i hyn yn negyddol.

5. Yna pam darnio Cymuned Botwnnog a'i chyfuno a Llanengan a Llangian. Mae'r Cyngor wedi gweithio'n galed ar hyd y blynyddoedd i sicrhau fod y gwerthoedd gorau yn cael eu cadw yn y Gymuned, sef 'rydym yn gweithio'n agos gyda'r Feddygfa ym Motwnnog er ceisio cael llais y cyhoedd yn glir ac eglur i'r ddarpariaeth a gyflenwir yno. Yr un modd 'rydym yn cyd-weithio'n agos gyda'r ddwy Ysgol.

6. Os yw'r Comisiwn o'r farn y dylid cyplysu Wardiau ac am symud ymlaen gyda'r cynllun hwn, yna oni fyddai'n rhesymol fod Cymuned Aberdaron a Chymuned Botwnnog yn ymuno. Yn sicr byddai hyn yn fwy rhesymol o gofio mai yn nhalgylch y ddwy Gymuned yma mae'r Ysgol Uwchradd.

Yn wyneb y sylwadau uchod **mae'r Cyngor yn bendant yn erbyn cyfuno'r ardaloedd** a dylid ail-ystyried y mater a gadael y Cynghorydd Sir wneud ei orau dros

ei etholwyr. Os bydd rhwygo ar yr etholaethau onid oes perygl na fydd yr aelod etholedig yn adnabod ei etholwyr cystal ag y mae ef neu hi ar hyn o bryd – yn aml mae'r aelodau yn byw yn eu hardal ac yn adnabod y teuluoedd. Byddai colli'r cysylltiad uniongyrchol yma yn golled enfawr yn y pendraw."

Yn y cyswllt hwn derbyniwyd e-bost gan Y Cynghorydd Gareth Williams, Y Cynghorydd Sir, yn hysbysu ei fod ef a'r Cynghorydd Gareth Roberts, cynrychiolydd Aberdaron ar Gyngor Gwynedd, wedi cytuno ar enw "Ward Pen Draw Llyn" os y cyfunir Aberdaron a rhan o Fotwnnog. Trafodwyd y mater a **phenderfynwyd** ei adael ar y bwrdd.

(ch) Eitem 102 – Materion Iechyd

Cyflwynwyd atebiad Mr. Dave Shaw ar ran Partneriaeth Meddygfa Rhydbach i sylwadau anfonwyd i'w sylw yn dilyn cyfarfod mis Mawrth. Amgaeeir copi o'r atebiad gyda'r cofnodion.

Penderfynwyd ymateb i lythyr Mr. Shaw yn datgan mai siomedig oedd y Cyngor o'r atebiad a'i wahodd i gyfarfod o'r Cyngor er cael rhoi barn y cyhoedd drosodd wyneb yn wyneb.

(d) Eitem 103 – Materion Ffyrdd

Nododd y Clarc nad oedd atebiad i law.

110. CEISIADAU CYNLLUNIO

Cyflwynwyd y ceisiadau a ganlyn i sylw'r Cyngor:

(a) Cais C18/0219/32/LL – adeiladu estyniadau a gwneud addasiadau i Penrhyn Ganol, Llaniestyn.
(b) Cais C18/0204/38/TR – ail adeiladu llinell drydan gyda pholion pren ym Motwnnog.

Penderfynwyd cefnogi'r ddau gais.

111. MATERION IECHYD

Nid oedd unrhyw fater i'w anfon ymlaen i'r Cyngor Iechyd.

112. MATERION FFYRDD

Penderfynwyd anfon y materion a ganlyn ymlaen at Beiriannydd Ardal Dwyfor:

(a) Y draen tu allan i Trefaes Bach, Botwnnog, wedi cau ac angen sylw.
(b) Y draen tu allan i Hen Bost, Sarn, wedi cau ac angen sylw.
(c) Twll dwfn o flaen Cegin Grug ym Motwnnog angen sylw.
(ch) Y ffordd sy'n arwain o Mellteyrn dros Foel Mellteyrn ac yn dod allan yn Ny'n y Marla, Bryncroes – mae bagiau silwair ar ochr y ffordd ac hefyd deallir fod wifren drydan ar draws y ffordd.

113. AWDURDOD I DALU

Penderfynwyd awdurdodi'r taliadau a ganlyn:

Yswiriant Zurich	£696.65
Un Llaid Cymru – ymaelodi	£142.00

105. BARBIO TIROEDD Y CYNGOR

Derbyniwyd dau dendr.

Penderfynwyd derbyn tendr J.A. Pozzi (er nad oedd yr isaf mewn dau gategori) fel a ganlyn gan ei fod yn adnabod yr ardal ac wedi ymgymryd a'r gwaith ar hyd y blynyddoedd ac wedi cyflawni gwaith o safon uchel i'r Cyngor.
Y tendr fel a ganlyn:

1. Barbio Mynwent y Cyngor yn Llandegwnning (y fynwent newydd lle mae ond ychydig o feddau yn y pen draw) ; y tyfiant i'w dorri bob tair wythnos yn ystod y tymor o fis Ebrill hyd Hydref, 2018, a'r gwellt i'w glirio oddi yno – **cyfanswm am wneud y gwaith yn £510 + TAW.**

2. Barbio Comin Bryncroes yn unig (y tir sydd islaw tai'r Cyngor) am gyfnod o saith mis (Ebrill i fis Hydref, 2018); y tyfiant i'w dorri bob tair wythnos yn ystod y tymor, a'r gwellt i'w glirio oddi yno – **cyfanswm am wneud y gwaith yn £900 + TAW.**

3. Pris yr awr am farbio llwybrau cyhoeddus o fewn tiriogaeth y Cyngor ac hefyd unrhyw waith achlysurol fel bydd y gofyn - **£15.00 yr awr + TAW.**

106. CEISIADAU AM GYFRANIADAU ARIANNOL

Cyflwynwyd ceisiadau am gyfraniadau ariannol.

Penderfynwyd

(a) Cyfrannu at y mudiadau a ganlyn:

Apel Ambiwlans Awyr Cymru i Blant	£100.00
Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2018	£ 25.00
O Ddrws i Ddrws	£100.00
Cyfeillion Mynwent Mellteyrn	£125.00

(b) Peidio cyfrannu i Wyl Gerdd Dant Blaenau Ffestiniog a'r Fro 2018.

107. TALU I'R CYNGHORWYR

Gwnaeth aelod ymholiad:

(a) A oedd penderfyniad wedi ei wneud i dalu i Gynghorwyr?
(b) Os oes tâl yn ddyledus a fyddai modd i'r aelodau gymryd yr arian a'i roi yn ôl i gronfa arall a'r Cyngor ei ddosbarthu at anghenion arbennig.

Dywedodd y Clarc y byddai'n gwneud ymholidau ac adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf.